



## CYFARFOD PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL - CYHOEDDUS

### COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

🕒 13:00 –14:30

📅 01 Chwefror 2024

📍 MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	Blaenlythrenna u	Teitl	Sefydliad
David Selway (Cadeirydd)	DS	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	IGDC
Marilyn Bryan-Jones	MBJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Alistair Klaas Neill	AKN	Aelod Annibynnol	IGDC

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Laura Beddoe	LB	Rheolwr Ansawdd, Cydymffurfiaeth Reoleiddiol	IGDC
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Carwyn Lloyd-Jones	CLJ	Cyfarwyddwr TGCh	IGDC
Darren Lloyd	DL	Cyfarwyddwr Cyswilt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion	IGDC
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	IGDC
Rachael Powell	RP	Cyfarwyddwr Cyswilt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil	IGDC
Keith Reeves	KR	Rheolwr Tîm Rheoli Gwasanaethau	IGDC
Julie Robinson	JR	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol – Ysgrifenyddiaeth y Cyfarfod	IGDC

Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Phrif Swyddog Masnachol	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	IGDC
Matthew Wintle	MW	Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt ar gyfer Gofal Eilaidd	IGDC
Ymddiheuriadau	Teitl		Sefydliad
Rowan Gardner	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol		IGDC
Paul Evans	Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio		IGDC
Rhidian Hurle	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol		IGDC
Julie Ash	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol		IGDC

Acronymau			
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	DG&S	Llywodraethu a Diogelwch Digidol
NDR	Adnoddau Data Cenedlaethol	ADS	Cymhwyso, Dylunio a Chymorth
R&I	Ymchwil ac Arloesi	SRO	Uwch Swyddog Cyfrifol
DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	WEDS	System Adrannau Achosion Brys Cymru
WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru	WASPI	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol	LINC	Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	BAU	Busnes fel Arfer
BIPBA	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	DPIF	Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol
NIIAS	System Archwilio Integredig Deallus Genedlaethol	PCIP	Porth gwybodaeth gofal sylfaenol



Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu i'w Gofnodi
<b>RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL</b>			
1.1	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd David Selway, Aelod Annibynnol ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (DS) bawb i'r sesiwn gyhoeddus, gan gadarnhau y byddai'n cadeirio'r cyfarfod hwn yn absenoldeb Rowan Gardner. Rhoddwyd croeso arbennig i Matthew Wintle, Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt Gofal Eilaidd a oedd yn dirprwyo ar ran y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Laura Beddoe Rheolwr Ansawdd Cydymffurfiaeth Rheoleiddio, a oedd yn bresennol ar ran Paul Evans.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rowan Gardner, Aelod Annibynnol, Cadeirydd</li> <li>• Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol</li> <li>• Paul Evans, Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiaeth Rheoleiddio</li> <li>• Julie Ash, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol</li> </ul>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<p>Datganiadau o Fuddiannau</p> <p>Nodwyd nad oedd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.4	<p>Materion sy'n codi</p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
<b>RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO</b>			
<p>Dosbarthwyd eitemau ar yr agenda gydsynio cyn y cyfarfod a nodwyd nad oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw sylwadau ymlaen llaw.</p>			
2.1	<p>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</p> <p>Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am fân wall teipio a gofynnwyd i'r cofnodion gael eu diwygio cyn iddynt gael eu huwchlwytho i'r wefan.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: GYMERADWYO Cofnodion Cryno Cyhoeddus a Phreifat y cyfarfod diwethaf ar 2 Tachwedd 2023</p>	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	Blaengynllun Gwaith	Nodwyd	Dim i'w nodi



	<p>Cadarnhaodd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) fod y cynllun gwaith wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu cyflwyno Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd a neilltuwyd rhai o'r eitemau ar yr agenda iddo. Mae aelodau'r pwyllgor yn parhau i sganio'r gorwel am eitemau i'w hychwanegu at y cynllun gwaith.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: NODI'R Blaengynllun Gwaith</p>		
2.3	<p>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: GYMERADWYO Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd AIA.</p>	Cymeradw wyd	Dim i'w nodi
2.4	<p>Hunanasesiad Effeithiolrwydd Llywodraethu Digidol a Diogelwch</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol NODI'R Hunanasesiad Effeithiolrwydd Diogelwch</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.5	<p>Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol GYMERADWYO Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.</p>	Cymeradw wyd	Dim i'w nodi
2.6	<p>Cylch Busnes y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol GYMERADWYO'R Cylch Busnes.</p>	Cymeradw wyd	Dim i'w nodi
<b>RHAN 3 - PRIF AGENDA</b>			
3.1	<p>Cofnod Gweithredu</p> <p>Nododd y Pwyllgor fod dau gam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a oedd bellach wedi dod i ben a bod manylion y camau gweithredu wedi'u nodi yn y cofnod.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: DRAFOD y Cofnod Gweithredu</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
3.2	<p>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p> <p>Nododd CD fod 19 o risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar hyn o bryd, yr oedd 11 ohonynt i'w hystyried gan y Pwyllgor hwn. Roedd 4 ohonynt yn cael eu dynodi'n rhai preifat a byddent yn cael eu trafod yn y sesiwn breifat gyda'r 7 arall yn destun trafodaeth yn y sesiwn hon.</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi



	<p>Nodwyd y newidiadau canlynol i risgiau cyhoeddus a neilltuwyd i'r Pwyllgor hwn ers y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn:</p> <p>O RISG NEWYDD</p> <p>O NEWID YN SGÔR</p> <p>DILËWYD 2 RISG</p> <p>DHCW0237 Effaith Gofynion Newydd ar Adnoddau a'r Cynllun – wedi'i israddio fel mesurau lliniaru cadarn yn eu lle.</p> <p>DHCW0292 Crynhoad Uchel o swyddi heb eu hariannu mewn timau seilwaith – wedi'i israddio i lefel y Gyfarwyddiaeth oherwydd y camau lliniaru sydd ar waith. Dywedodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithredoedd (SL) fod y rolau heb eu hariannu yn cael eu gosod yn erbyn y swyddi gwag. Yn ogystal, cynhaliwyd ymarfer i rwydo rolau heb eu hariannu cyn belled ag y bo modd yn erbyn swyddi gweigion. Roedd rhai swyddi gweigion wedi'u dileu i sicrhau bod cyllid ac adnoddau'n cael eu cyfeirio at y meysydd sydd eu hangen fwyaf.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor a gredid ei bod yn fwy priodol cyflogi pobl ar gontractau tymor byr neu a fyddai hyn yn risg.</p> <p>Mae IGDC wedi rhoi'r gorau i recriwtio i swyddi nad ydynt yn rolau a ariennir yn barhaol, fodd bynnag, roedd un eithriad i hyn yn y tîm a oedd yn cael ei sefydlu ar gyfer DSPP ar gyfer ap GIG Cymru gan fod angen ymgorffori gallu mewnol.</p> <p>Cytunodd y Pwyllgor fod hwn yn ddull pragmatig iawn i'w fabwysiadu a nododd yr anhawster o ran recriwtio pobl â sgiliau i gontractau cyfnod penodol.</p> <p>Atgoffodd CD y Pwyllgor fod archwiliadau dwfn i ddwy o'r risgiau corfforaethol a fyddai'n digwydd yn sesiwn breifat y cyfarfod.</p> <p>Rhoddyd diweddariadau ar weddill y risgiau a neilltuwyd i'r Pwyllgor:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• DHCW0316 Cronni Dyledion Technegol - roedd y risg hon yn edrych ar y ddyled dechnegol a oedd wedi cronni o amgylch y man ymgeisio. Roedd IGDC wedi buddsoddi mewn lleihau dyled a'r seilwaith ond o safbwynt cais roedd nifer o systemau ar draws yr ystâd wedi bod yn</li> </ul>		
--	---	--	--



weithredol ers peth amser. Roedd gweithgareddau ar y gweill i leihau hyn ac edrych ar aeddfedrwydd meddalwedd. Roedd ymarfer wedi'i gynnal gyda Microsoft i edrych ar achos economaidd i fudo i'r Cwmwl. Roedd darn o waith i fod i ddechrau a fydd yn edrych ar gyfanswm cost rhedeg systemau a pharhau i ddatblygu a chymharu yn erbyn cynnig y farchnad ac edrych ar y bwlch ymarferoldeb. Roedd Map Ffordd API wedi'i gyhoeddi ac roedd llawer o weithgarwch yn y gofod hwn felly dylid gweld gostyngiad yn y ddyled dechnegol yn y dyfodol agos.

- DHCW0300 CANISC – byddai diweddariad yn cael ei dderbyn yn y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni yn nes ymlaen yn y mis.
- DHCW0308 Cyllid Cynaliadwy ar gyfer System Archwilio Integredig Deallus Genedlaethol (NIAS) – Darparodd Darren Lloyd, Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion (DL) ddiweddariad ar y risg. Roedd y risg ar gyfer hyn a DHCW0321 yn gysylltiedig â chyllid cynaliadwy ac roedd DL yn falch o hysbysu'r pwyllgor bod rhan o'r arian craidd wedi'i ddyrannu yn y setliad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf gan Lywodraeth Cymru. Argymhellodd DL y gellid symud y risg o risg gorfforaethol i risg adrannol gan fod sefyllfa gyllido gynaliadwy bellach ar gyfer y cynnyrch. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r tîm cyllid i ddeall proffilio'r cyllid yn erbyn y contract presennol a chontract yn y dyfodol y byddai angen mynd allan i'r farchnad amdano maes o law. Roedd angen ymagwedd gynaliadwy i ddeall beth fyddai dull y farchnad. Fodd bynnag, roedd yn newyddion da y byddai NIAS yn rhan o'r dyraniad cyllid craidd.
- DHCW0321 Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cyllid Cynaliadwy Cymru (WASPI), roedd y sefyllfa'n debyg ar gyfer y risg hon a fydd yn rhan o'r cyllid craidd ac roedd awgrym wedi bod y byddai'r dull o wneud Cod Ymddygiad ar gyfer WASPI gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael ei gymeradwyo. Argymhellodd DL hefyd y gellid symud y risg hon o risg gorfforaethol i risg adrannol.
- DHCW0296 Alergeddau ac Adweithiau Anffafriol – roedd y risg yn seiliedig ar nifer o elfennau eraill a oedd yn codi yn y sefydliad a rhai prosiectau a rhaglenni. Rhan o'r cynnydd oedd deall beth oedd ei angen o gadwrfa ganolog ynghylch data clinigol h.y. un ffynhonnell o wirionedd a fydd yn storio gwybodaeth glinigol am alergeddau ac adweithiau

Cofnodion heb eu cadarnhau ar gyfer y:

Pwyllgor Cyhoeddus Llywodraethu a Diogelwch Digidol 01022024



	<p>niweidiol ar draws llwybr y claf. Nid oedd yn hysbys ar hyn o bryd pryd y byddai'n debygol y byddai'r risg yn cael ei leihau neu ei gau gan ei fod yn dibynnu ar y rhaglen yn gweithio.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor yr amserlenni ar gyfer y system NIIAS bresennol a phryd y byddai angen edrych ar gaffael system wahanol. Byddai'r cytundeb presennol yn cael ei ymestyn am 3 blynedd arall ond byddai angen mynd allan i'r farchnad yn y flwyddyn ariannol nesaf i gychwyn y ddeialog ar gyfer caffael.</p> <p>Darparodd CD grynodedb o'r risgiau a chadarnhaodd fod yna strategaeth Risg a Sicrwydd Bwrdd a oedd yn nodi'r ymagwedd at risg ac yn cynnwys edrych ar risgiau trwy lens o gyfle a bygythiadau. Yn aml bydd rheolaeth lwyddiannus o risgiau yn arwain at wireddu cyfleoedd. Roedd yr archwaeth risg yn cael ei adolygu'n flynyddol gan ystyried ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar IGDC. Fodd bynnag, mae risgiau a ddaw yn sgil sefydliadau fel Fforwm Economaidd y Byd ynghylch tueddiadau amgylcheddol ac o ragolwg risg cenedlaethol Llywodraeth y DU yn tueddu i ddod o safbwynt risg yn hytrach nag un o gyfleoedd.</p> <p>Dywedodd CD ei bod yn ffordd dda o gofio cael cyfleoedd ar flaen y gad, yn enwedig i IGDC lle mae pethau fel y defnydd o dechnoleg data, deallusrwydd artiffisial a seiber i gyd yn feysydd risg uchel ond hefyd yn uchel o ran cyfleoedd. Cadarnhaodd CD y teimlwyd bod IGDC ar y trywydd iawn o ran ei agwedd at risg ond roedd yn hapus i dderbyn adborth y Bwrdd o ran sut y gallai IGDC gynnwys cyfleoedd yn well o bosibl trwy lens risg ac awgrymodd drafodaeth all-lein cyn sesiwn datblygu'r Bwrdd ym mis Ebrill.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: DRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p>		
<p>3.3</p>	<p>Adroddiad Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol</p> <p>Wedi'i gyflwyno gan Keith Reeves, Rheolwr Tîm Rheoli Gwasanaeth (KR); nododd ei fod yn cwmpasu cyfnod Chwarter 3.</p> <p>Cyflwynwyd yr uchafbwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bu cynnydd sylweddol mewn ymholiadau yn codi o 7 yn Chwarter 2 i 87 yn Chwarter 3. Roedd y cynnydd yn ymwneud â dau faes, gan fod hyrwyddo IGDC wedi gwella ac roedd y llall yn</li> </ul>	<p>Trafodwyd er Sicrwydd</p>	<p>Cam Gweithredu: KR i gysylltu â CL-J ar newid iaith o fewn y Fframwaith Ffactorau Cyfrannol.</p>



ymwneud ag Ap y GIG. Roedd dadansoddi'r ymholiadau hyn wedi nodi pedwar maes i'w gwella o ran yr Ap a'r prosesau cymorth.

- Ar gyfartaledd rhwng dau a thri adolygiad y mis. Helpodd hyn i ddiffinio unrhyw welliannau. Yn bennaf roedd llawer o'r adolygiadau'n ymwneud â digwyddiadau technegol ond cynhaliwyd adolygiadau eraill hefyd h.y. adolygiadau thematig ac archwiliadau a gomisiynwyd. Galluogodd hyn well dealltwriaeth o achosion sylfaenol.
- Uchafbwyntiau'r chwarter – y cynnydd mewn ffactorau cyfrannol allanol ar gyfer Digwyddiadau Mawr. Mae ffactorau allanol yn ffactorau achosol y tu allan i reolaeth IGDC, lle mae methiant yn dal i effeithio ar wasanaethau IGDC.
- Roedd dau welliant sy'n ymwneud yn benodol â'r rhain. Edrych ar sut i ddarparu hyfforddiant rheoli ar unwaith neu hyfforddiant rheoli newid yn well a hefyd ar y rhaglen cymhwysedd ehangach.
- Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf ar y Strategaethau Clinigol, cyn gynted ag y bydd y strategaeth yn cael ei gwreiddio, bydd yn cael ei nodi os gellir gwneud unrhyw welliannau pellach yn deillio o hynny.
- Roedd menter o'r enw 'Rhaglen Dysgu Gwell' yn dod drwy GIG Cymru ac yn cael ei hysgogi'n bennaf gan ICC a oedd yn galluogi dysgu o ddigwyddiadau a ddigwyddodd ar draws GIG Cymru.
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gael gwell dealltwriaeth o effaith methiant system h.y. y system LIMs a'r effaith ar dimau patholeg ar draws GIG Cymru, er mwyn sicrhau bod y cynnydd mewn digwyddiadau mawr yn fwy cadarn.

Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd, er bod yr adroddiad yn ymwneud â'r prif feysydd effaith, mai'r broses oedd adolygu a dod â phrofiad o'r timau seiber/Llywodraethu Gwybodaeth/Clinigol i mewn i gydweithio ar yr adroddiad os oedd hyn yn briodol i'r digwyddiad.

Awgrymodd Carwyn Lloyd Jones, Cyfarwyddwr TGCh (CL-J) y dylid newid rhai o'r disgrifiadau yn y Fframwaith Ffactorau Cyfrannol i iaith yr oedd pobl yn gyfarwydd â hi o ddydd i ddydd. Cytunodd KR i gysylltu â CL-J ynglŷn â'r pwynt hwn.

CAM GWEITHREDU:2024-02-01-A01 KR i gysylltu â CL-J ar newid iaith o fewn y Fframwaith Ffactorau Cyfrannol.

Byddai'r adroddiad diwedd blwyddyn yn cael ei





	<p>gynhyrchu yn Chwarter 4 a byddai'r awgrymiadau'n cael eu hymgorffori gyda mwy o fanylion mewn adroddiadau wrth symud ymlaen.</p> <p>Canmolodd y Pwyllgor KR a'i dîm am y dadansoddiad o ymholiadau ynghylch Ap y GIG a rhoi gwelliannau ac adnoddau i mewn oherwydd pan gafodd yr Ap ei gyflwyno'n ehangach roedd yn debygol iawn y byddai mwy o ymholiadau'n dod i law.</p> <p>Cadarnhaodd KR fod y mecanwaith adrodd yn rhywbeth yr oedd angen ei wella cyn i'r Ap gael ei ddefnyddio ymhellach.</p> <p>Cadarnhaodd CD fod cynnydd sylweddol wedi bod mewn ymholiadau yn ymwneud ag Ap y GIG a oedd yn y cam profi Beta Cyhoeddus, ond roedd yn galonogol y dylai'r rhain hysbysu o safbwynt dysgu sut i lansio'r Ap yn ffurfiol i ddod yn rhyngwyneb cyhoeddus llawn.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: DRAFOD yr Adroddiad Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol ar gyfer SICRWYDD</p>		
<p>3.4</p>	<p>Adroddiadau Sicrwydd</p> <p>I. Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth</p> <p>Cyflwynodd Darren Lloyd, Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion (DL) yr Adroddiad ar Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth yn nodi gwaith y tîm Llywodraethu Gwybodaeth o'r cyfnod hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd fformat yr adroddiad wedi newid yn dilyn cymeradwyo'r Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth ac roedd bellach yn fframio'r adroddiad oddi ar gefn y strategaeth fel bod rhywfaint o gysondeb a chydweithio. Roedd y strategaeth yn cael ei defnyddio i'r eithaf o ran sicrwydd ac ymgymryd â'r cyfrifoldebau.</li> <li>• Mae pedair elfen:-</li> <li>• Cydymffurfio â Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol (NOD 1). Roedd gwaith a wnaed o ran camau gweithredu ar ein cydymffurfiaeth ein hunain yn mynd rhagddo'n dda.</li> <li>• Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol (NOD 2) Mae IGDC yn parhau i gynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar ystod o systemau a</li> </ul>	<p>Nodwyd</p>	<p>Dim i'w nodi</p>



gwasanaethau. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod yna gyfres o Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data a allai fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.

- Polisi Llywodraethu Gwybodaeth (NOD 3)  
Mae IGDC wedi bod yn cydweithio ag arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth ar draws Byrddau Iechyd GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig ar y camau nesaf mewn perthynas â Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan. Mae gwaith wedi'i wneud i ddiweddarau a chyfuno'r polisiau hyn gan arwain at ddull cydweithredol o greu Polisi Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan ynghylch Llywodraethu Gwybodaeth, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn yr ychydig fisoedd nesaf. Nododd DL bwysigrwydd cael Polisi Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan wedi'i ddiweddarau o ystyried y fframwaith y manylwyd arno yn y strategaeth.
- Dyletswydd Ansawdd (NOD 4)  
Roedd y Strategaeth yn cael ei throsi i'r Cynllun Tymor Canolog Integredig (CTCI) h.y. mae'r cydrannau o fewn y fframwaith, i gynnwys agweddau ar NIIAS, Gwasanaeth Cefnogi Swyddogion Diogelu Data, WASPI a Phecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn yr CTCI ac yn deillio o hynny fel yr uchelgais dros y 12 i 18 mis nesaf.

## II. Adroddiad Sicrwydd Gwybodeg

Cyflwynodd Laura Beddoe, Rheolwr Ansawdd Cydymffurfiaeth Rheoleiddio (LB) yr Adroddiad Sicrwydd Gwybodeg a thynnodd sylw at y canlynol:-

- Roedd 21 o bapurau wedi mynd drwy'r grŵp ac roedd gan chwech o'r rheini ddyddiadau 'Mynd yn Fyw' yn chwarter 3. Derbyniodd pedwar o'r rheini gymeradwyaeth sicrwydd gan WIAG. Ni dderbyniodd dau ohonynt gymeradwyaeth sicrwydd. Darparodd LB esboniadau am y rhesymau pam na dderbyniodd y ddau bapur gymeradwyaeth cyn mynd yn fyw.
- Edrych i'r dyfodol – archebwyd 15 o bapurau i'w hadolygu drwy Ionawr/Chwefror a 7 prosiect newydd.
- Roedd gwelliannau wedi edrych ar y llwyfan pŵer a gweithio gyda'r Ganolfan Ragoriaeth. Mae wedi'i

Cofnodion heb eu cadarnhau ar gyfer y:

Pwyllgor Cyhoeddus Llywodraethu a Diogelwch Digidol 01022024



rannu ag arweinwyr sicrwydd a grŵp o reolwyr prosiect. Roedd adborth wedi'i ystyried a newidiadau wedi'u gwneud. Bwriad y llwyfan pŵer oedd gwneud y broses yn fwy llyfn a chael gwared ar y baich amser o fynd i gyfarfodydd a chael gwared ar y gwaith papur amrywiol oedd angen ei gwblhau. Roedd y Tîm yn ymwybodol y byddai chwarter 1 yn her wrth i'r system fynd yn fyw ac roedd dwy system yn cael eu rhedeg ar yr un pryd, ond roedd y tîm yn barod am hyn. Byddai hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd chwarter 1 / chwarter 2 i baratoi ar gyfer yr ap pŵer.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod IGDC bellach wedi sefydlu Awdurdod Dylunio Technegol a fyddai'n goruchwyllo datblygiad egwyddorion, safonau a glasbrintiau ac a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dylunio ac adeiladu systemau newydd, a thrwy'r broses hon y nod oedd lleihau'r gorbenion sicrwydd a llywodraethu wrth gomisiynu systemau newydd.

### III. Adroddiad Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth

Cyflwynodd Rachael Powell, Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil (RP) Adroddiad Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth a thynnodd sylw at y pwyntiau o ddiddordeb i'r Pwyllgor:-

- Roedd y Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg wedi'i chymeradwyo a'i chyhoeddi ac roedd yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer y sefydliad. Roedd cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, i'w gyflawni fel carreg filltir CTCI Ch4 2023/24 ac yn nodi'r prif gyflawniadau ar gyfer CTCI 2024-2027.
- Roedd y Grŵp Sicrwydd ISD wedi adolygu 10 Cynllun Sicrwydd Ansawdd ers dechrau mis Tachwedd.
- Roedd holl gerrig milltir y Gwasanaethau Gwybodaeth o fewn yr CTCI ar darged i'w cwblhau fel y cynlluniwyd erbyn diwedd Ch4.
- Mudo'r Ganolfan Ddata - cyflawnwyd trosglwyddiad llwyddiannus o'r holl wasanaethau gwybodaeth o ganolfan ddata un i ganolfan ddata dau ac yn ôl eto ac roedd y Gwasanaeth Newid wedi'i gynnwys yn hwn.
- Roedd fframwaith llywodraethu a sicrwydd Power BI wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Roedd y tîm wedi cynhyrchu cyfres o ddeunyddiau ac yn gysylltiedig â hynny roedd adolygiad ôl-weithredol

Cofnodion heb eu cadarnhau ar gyfer y:

Pwyllgor Cyhoeddus Llywodraethu a Diogelwch Digidol 01022024



	<p>o ddangosfyrddau yn cael ei gynnal.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol wedi'i ailgynllunio (PCIP) gyda gwell swyddogaeth, cyhoeddwyd fersiwn newydd ac roedd defnyddwyr wedi rhoi rhywfaint o adborth cadarnhaol.</li> </ul> <p>Nododd y Pwyllgor y newyddion da ynghylch trosglwyddo'r gwasanaeth data, ac yn arbennig y Gwasanaeth Newid, a holodd a ellid lleihau'r risg i adlewyrchu hyn. Rhannwyd y risg yn dair risg benodol, yn dilyn yr archwiliad allanol a wnaed, a oedd yn ymwneud â Chyfarwyddiaethau eraill, felly mae'n debyg bod rhagor o waith i'w wneud ond roedd gwaith yn cael ei wneud i drosglwyddo'r data o'r warws data presennol i'r un newydd.</p> <p>IV. Adroddiad Sicrwydd Strategaeth Ymchwil ac Arloesi</p> <p>Cyflwynodd RP Adroddiad Sicrwydd y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi i gynnwys yr Adroddiad Blynyddol Ymchwil ac Arloesi gyda'r uchafbwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed tuag at gamau gweithredu Ymchwil ac Arloesi a nododd yn benodol y gweithgarwch a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol Ymchwil ac Arloesi a oedd wedi'i gynnwys yn y papurau a gofynnodd am gadarnhau hyn i'w ddsbarthu'n ehangach.</li> <li>• Roedd mecanwaith costio dros dro ar gyfer ceisiadau data a phrosiectau ymchwil ac arloesi wedi'i gymeradwyo ac roedd yn cael ei ddefnyddio fel peilot gyda gweithgarwch ymgysylltu ar y gweill i sefydlu model costio sylweddol. Roedd Rheolwr Cymorth Ymchwil ac Arloesi wedi'i benodi i ymuno â'r tîm ym mis Rhagfyr 2023 ac roedd Pennaeth Ymchwil ac Arloesi newydd wedi ymuno ym mis Ionawr 2024. Yn ogystal â chael adnoddau allweddol i mewn, roedd mecanwaith costio yn cael ei roi ar waith a'i sefydlu bellach fel y gallai Ymchwil ac Arloesi adennill costau ar gyfer rhywfaint o'r gweithgaredd.</li> <li>• Mae llywodraethu yn parhau gyda chyfarfodydd misol Ymchwil, Arloesi, Gweithredol ac Ymgysylltu sy'n monitro gweithgareddau allweddol h.y. ASCEND, Blood Cancer UK ac ati a hefyd y gwaith o amgylch rhaglenni a chyflawniadau academiaidd. Mae'r grŵp hwn yn bwydo i mewn i'r Bwrdd Ymchwil ac Arloesi sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo'r Cynnig Canfod, Recriwtio</li> </ul>		
--	--	--	--



	<p>ac Olrhain (Find, Recruit and Follow Up) a bydd diweddariad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Roedd yr Adroddiad Blynyddol a gynhwyswyd yn y papurau yn rhoi dadansoddiad o weithgareddau allweddol y bu'r tîm Ymchwil ac Arloesi yn ymwneud â nhw yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai hon oedd blwyddyn gyntaf y swyddogaeth Ymchwil ac Arloesi ac felly roedd y tîm wedi bod yn myfyrio, gan gynnwys canolbwyntio ar yr hyn a aeth yn dda, ymgysylltu â rhywfaint o fapio rhanddeiliaid ac adeiladu ar y brand ymhellach.</p> <p>Cadarnhaodd RP fod IGDC yn sefydliad unigryw, yn sicr o fewn ecosystem Cymru a oedd yn dod â heriau ond hefyd cyfleoedd o ran yr hyn y gellid ei wneud ar raddfa ac yn genedlaethol ar ran y sector ecosystemau a gwyddorau bywyd. Roedd IGDC mewn sefyllfa unigryw yng Nghymru ond roedd yn gweithio gyda chydweithwyr o'r Alban a Lloegr ac yn agos gyda Threialon Digidol y GIG i ddeall y model y maent wedi'i ddatblygu.</p> <p>Canmolodd y Pwyllgor RP a'i thîm am y cynnydd da a wnaed dros y 12 mis diwethaf wrth i'r strategaeth ddod yn fyw. Trafododd y Pwyllgor ymhellach y cyfleoedd y gellid rhoi sylw iddynt ac fel Pwyllgor dylai fod yn annog mwy o adnoddau i'r ardal.</p> <p>Cytunodd Matthew Wintle, Cyfarwyddwr Meddygol Gofal Eilaidd (MW) ei bod wedi bod yn flwyddyn gyffrous gweld y strategaeth ar waith ac yn amlwg, pan ddaeth yn fater o ymchwil ac arloesi, roedd llawer yn digwydd y tu allan i Gymru. Roedd IGDC yn ceisio darparu'r asedau ac adeiladu'r seilwaith i allu manteisio ar rai o'r technolegau cyffrous sy'n datblygu ledled y byd. Cadarnhaodd MW ei gefnogaeth i'r tîm ymchwil ac arloesi i'w galluogi i gael y mecanweithiau cywir yn eu lle i allu cyflawni hyn.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: NODI'R adroddiadau ar gyfer SICRWYDD a CHEFNOGI'R Adroddiad Ymchwil ac Arloesi Blynyddol.</p>		
RHAN 4 – MATERION I GLOI			
4.1	Unrhyw Faterion Brys Eraill Nid oedd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.2	Eitemau ar gyfer Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i'r Bwrdd	Nodwyd	Dim i'w nodi

Cofnodion heb eu cadarnhau ar gyfer y:  
Pwyllgor Cyhoeddus Llywodraethu a Diogelwch Digidol 01022024



	<p>Nodwyd yr eitemau i'w cynnwys yn Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd ar gyfer Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Mawrth fel;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gwaith da a wnaed ar risgiau a neilltuwyd i'r Pwyllgor. Roedd y proffil risg cyffredinol a neilltuwyd i'r Pwyllgor wedi gostwng yn rhannol oherwydd y gwaith a wnaed gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth.</li> <li>• Cydnabod y gwaith da sy'n cael ei wneud drwy'r strategaeth ymchwil ac arloesi a myfyrio ar y gwaith y maent wedi bod yn rhan ohono y llynedd a'r potensial i wneud hyd yn oed mwy. Cydnabu'r Pwyllgor y byddai angen mwy o adnoddau arnynt er mwyn gwneud mwy a dylai'r Pwyllgor gefnogi hyn.</li> </ul>		
4.3	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>Cadarnhawyd dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ar 2 Mai 2024 am 1.00pm.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi